# EXECUTIVE DECISION RECORD

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 11 MEDI 2024

**Aelodau'r Cabinet:**

Y Cynghorwyr: S K Hunt, S A Knoyle, N Jenkins, J Hurley, S Harris, J Hale, A Llewelyn, S Jones a C Phillips

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:**

K Jones, N Pearce, A Jarrett, K Warren, N Daniel, A Thomas, H Jones, C Griffiths, G Hargest, M Selby, S Brennan, J Burge, H Short, S Coe, C Jones, N Jones a C John

**Gwahoddedigion:**

Y Cynghorwyr T Bowen, P Richards a C Jordan

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

   Y Cynghorydd S Knoyle - Cofnod Rhif 10 - Cynllun Mân Brosiectau Cynghorau Cymuned – Cyngor Tref Glyn-

nedd – Enwir y Cynghorydd Knoyle yn y ddogfen.

Cofnod Rhif. 23 - Llywodraethwyr yr ALl - Tymor yr Hydref 2024– Enwir aelod o'r teulu yn y ddogfen.

Y Cynghorydd S Jones - Cofnod Rhif 14 – Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Cymeradwyo Prosiectau'r Gronfa Gwella Cyfleusterau Cymunedol gan ei fod yn ymddiriedolwr Clwb Athletau Croeserw.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf a 7 Awst 2024, yn gofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2024/25**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2024/25.

6. **HOLI'R CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

7. **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2024/25**

**Penderfyniad:**

1. Bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn mewn perthynas â sefyllfa alldro'r gyllideb a'r cronfeydd wrth gefn amcanol presennol

2. Bod aelodau'n nodi'r cynnydd yn erbyn yr arbedion y cytunwyd arnynt.

3. Nodir y bydd Swyddogion yn ceisio rhoi mesurau arbed costau a chynhyrchu incwm ychwanegol ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau'r sefyllfa gorwariant bresennol. Caiff y mesurau hyn eu cymryd dim ond lle gellir eu cyflwyno o fewn fframweithiau polisi presennol.

8. **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2024/25**

**Penderfyniad:**

Bod aelodau'n cymeradwyo;

1. Y gyllideb ddiweddaredig arfaethedig ar gyfer 2024/25 sef cyfanswm o £77.979m;

2. Bod y sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Mehefin 2024 yn cael ei nodi.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig**

I gydymffurfio â chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru rhagamcaniadau cyllideb y Cyngor ar gyfer 2024/25.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **MONITRO RHEOLAETH TRYSORLYS 2024/25**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

10. **CYNLLUN MÂN BROSIECTAU CYNGHORAU CYMUNED - CYNGOR TREF GLYN-NEDD**

Ailddatganodd y Cynghorydd S Knoyle ei fudd, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**Penderfyniad:**

Bod aelodau'n cymeradwyo grant o 50% o'r costau go iawn hyd at uchafswm o £10,000 i Gyngor Tref Glyn-nedd.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Mae’r penderfyniad yn cydymffurfio â'r polisi cymeradwy ac i alluogi gwelliannau cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **<u>CYNLLUN MÂN BROSIECTAU CYNGHORAU CYMUNED – CYNGOR CYMUNED ONLLWYN</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo grant o 70% o'r costau go iawn hyd at uchafswm o £14,000 i Gyngor Cymuned Onllwyn.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig</u>**

Mae’r penderfyniad yn cydymffurfio â'r polisi cymeradwy ac i alluogi gwelliannau cymunedol.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith</u>**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

12. **<u>AIL-BLEIDLAIS AR GYFER ARDAL GWELLA BUSNES PORT TALBOT, VIVA PORT TALBOT.</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Bod aelodau'n cymeradwyo'r cais gan VIVA Port Talbot i'r Cyngor weithredu fel trefnydd pleidleisio yn y bleidlais sydd ar ddod, am gost o tua £3,000 - £3,500.

**<u>Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:</u>**

Er mwyn caniatáu i VIVA Port Talbot gyflawni ei rhwymedigaeth i gynnal ail-bleidlais ar gyfer ei busnesau sy'n talu ardollau.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

13. **<u>GRANT EIDDO MASNACHOL: ADOLYGU TELERAU AC AMODAU</u>**

**<u>Penderfyniad:</u>**

Argymhellir ymestyn cymhwysedd daearyddol y Grant Eiddo Masnachol i bob ward yn y Fwrdeistref Sirol.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith mor eang â phosib yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at gyffiniau canol tref Castell-nedd.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

14. **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CYMERADWYO PROSIECTAU CRONFA GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL**

Ailadroddodd y Cynghorydd S Jones ei fudd, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig ac ar ôl ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Panel Cyllid a gynhaliwyd ar 29 Awst, argymhellir y canlynol:

- Bod aelodau'n cytuno ar yr argymhelliad i gymeradwyo'r prosiectau canlynol, y mae aelodau'n ymwneud â nhw o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Castell-nedd Port Talbot drwy'r Gronfa Gwella Cyfleusterau Cymunedol, gan ragdybio eu bod wedi'u cymeradwyo yng nghyfarfod y Panel Cyllid a gynhaliwyd ar 29 Awst:

1) Clwb Pêl-droed Croeserw – Gwelliannau ffyrdd/ailwynebu
2) Clwb Rygbi Aberavon Greenstars – Gosod paneli solar, cam 2
3) Canolfan Ymgysylltu Cymunedol Cwmafan – Ailwampio'r gegin

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith a rhoi gwybod i ymgeiswyr am y penderfyniad ariannu.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y broses galw i mewn o dridiau.

15. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir y canlynol:-

Bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei diwygio fel a ganlyn:-
Ychwanegu cwmni at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy.
Mae'r cwmni canlynol wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ar y rhestr ac wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Cambrensis Civil Engineering Ltd (C078) | 76,80 |

Cwmnïau i'w tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy

Mae angen tynnu’r cwmnïau canlynol oddi ar y rhestr oherwydd y rhesymau canlynol:-
M038 - Mae'r cwmni wedi'i ymddiddymu
R041 - Mae'r cwmni wedi methu i fodloni'r gofynion iechyd a diogelwch a'r meini prawf ariannol

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Mid Glam Construction Ltd (M038) | 15,25,71,76,77,80,84 |
| RTS Tree Specialist Ltd (R041) | 2, 84 101,102 |

Tynnu categori gwaith oddi ar gontractwr cymeradwy oherwydd nad oes yswiriant iechyd a diogelwch

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Core Highways (Regions) Ltd (A035) | 2 |

**DS** Mae'r cwmni hwn yn parhau i fod yn gontractwr cymeradwy ar gyfer Categori 9 – Rheoli Traffig.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol. Caiff yr argymhellion hyn

eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **STRATEGAETH GAFFAEL**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad sgrinio effaith integredig, mae’r Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo Strategaeth Gaffael Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024-2028, sy'n cynnwys amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol y Cyngor, fel a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Nod y Strategaeth Gaffael hon yw sicrhau ymlyniad â gofynion deddfwriaethol newydd a bod fframwaith ar waith fel bod penderfyniadau caffael a chomisiynu yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cyflawni nodau Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'r Strategaeth Gaffael hon.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

17. **LLYWODRAETHWYR ALL 2024**

**Penderfyniad:**

Yn unol â'r polisi cymeradwy, penodir cynrychiolwyr llywodraethwyr yr ALl i'r swyddi gwag presennol ac sydd ar ddod, a nodir yn yr atodiad atodedig.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Galluogi'r Awdurdod i gyfrannu at lywodraethu ysgolion yn effeithiol drwy gynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau

18. **PEILOT GOLEUO RHAN NOS**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig a'r angen i gasglu rhagor o wybodaeth i gwblhau asesiad llawn, argymhellir bod yr aelodau'n cymeradwyo'r cynllun peilot goleuadau stryd rhan amser gyda'r hwyr sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Treialu rhoi cynllun goleuadau stryd rhan amser gyda'r hwyr ar waith am gyfnod byr i helpu i asesu effaith mesur o'r fath ac i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

19. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

20. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o'r atodlen.

21. **GWASANAETH CHWARAE CANLYNIADAU CADARNHAOL (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

. **Penderfyniad:**

1. Cytunir i ymgymryd ag ymarfer caffael i gomisiynu Gwasanaeth Chwarae Canlyniadau Cadarnhaol.

2. Yn dilyn y broses gaffael, rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i ymrwymo i gontract gyda'r cynigwyr buddugol.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Bydd cynnal ymarfer caffael ar gyfer y Gwasanaeth Chwarae Canlyniadau Cadarnhaol yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol wrth brynu'r gwasanaeth hwn. Yn ogystal, bydd hyn yn sicrhau mai'r Cyngor sydd yn y sefyllfa orau i barhau i ddiwallu anghenion a gofynion y rheini y mae angen y gwasanaethau hyn arnynt drwy brynu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy yn ariannol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

22. **GWASANAETH LLETY Â CHYMORTH (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Bod Aelodau'n rhoi caniatâd i swyddogion:

1. Gynnal ymarfer ymgynghori 30 niwrnod.

2. Trafod dyddiad terfynu contract gyda'r darparwr presennol i gwmpasu'r amserlen ymgynghoriad a dod â'r gwasanaeth yn fewnol os cytunir gwneud hynny.

3. Cyflwyno papur i'r Cabinet yn dilyn y cyfnod ymgynghori i adrodd ar y canlyniad a'r cynnig i'w gyflwyno'n fewnol.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Ystyried yr adnoddau gofal cymdeithasol sydd ar gael wrth gynnal asesiad neu ailasesiad o anghenion unigolion; sicrhau bod ystod gynaliadwy o wasanaethau o ansawdd da ar gael i bobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot; cyfrannu tuag at yr arbedion cyllidebol a nodwyd ym Mlaengynllun Ariannol y Cyngor; a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol drwy symud gwasanaethau i ffwrdd o sefydliadau er elw.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 23. LLYWODRAETHWYR ALL - TYMOR YR HYDREF 2024 (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 12)

Ailadroddodd y Cynghorydd S Knoyle ei fudd, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

**Penderfyniad:**

Bod yr aelodau yn cefnogi dileu tri Llywodraethwr yr ALl.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Galluogi'r Awdurdod i gyfrannu at lywodraethu ysgolion yn effeithiol drwy gynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion ac i ystyried y trefniadau diogelu.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

I'w roi ar waith ar unwaith.

## 24. RHYDDHAD CALEDI (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniad:**

Bod y cais yn cael ei wrthod.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Nodir yn eitem 7.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**